Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English

**SWYDDOGOL OFFICIAL**

## Proffil y Rôl

| | |
|---|---|
| **Teitl y Rôl:** | Swyddog Polisi Cyfiawnder Troseddol |
| **Gradd:** | P01/2 |
| **Yn atebol i:** | Pennaeth Dioddefwyr a Chyfiawnder Troseddol |
| **Yn gyfrifol am:** | Dim Cyfrifoldeb Goruchwylio |
| **Cydgysylltu â:** | Dd/G |
| **Lefel Fetio Ofynnol:** | MV/SC – Fetio Rheoli a Chliriad Diogelwch |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | Ebrill 2026 |

**Trosolwg o'r Rôl:**

Bydd y Swyddog Polisi yn cefnogi'r Pennaeth Dioddefwyr a Chyfiawnder Troseddol wrth gyflawni ei gyfrifoldeb o gydweithio â phartneriaid er mwyn amlygu a chynnig atebion strategol i faterion a risgiau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder troseddol lleol mewn ffordd ragweithiol, ynghyd â rhoi strategaethau, polisïau a datblygiadau newydd yn ymwneud â chyfiawnder troseddol ar waith. Bydd angen i'r Swyddog Polisi ddatblygu cydberthnasau cryf â phartneriaid er mwyn cyflawni ffyrdd effeithlon, effeithiol, cydweithredol ac arloesol o weithio er mwyn nodi arfer gorau ledled De Cymru.

Bydd y rôl yn hanfodol wrth ddatblygu ein dealltwriaeth o effeithiolrwydd y System Cyfiawnder Troseddol a sicrhau mwy o dryloywder a chysondeb trwy brosesau craffu, atebolrwydd a sicrwydd ansawdd. Bydd y rôl yn cyfrannu at y gwaith o wella perfformiad Chyfiawnder Troseddol trwy gydweithio â phartneriaid i ddatblygu fframweithiau perfformiad, gwella'r data sydd eisoes ar gael a defnyddio hyn i flaenoriaethu gwaith yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau.

Bydd y rôl hon yn adeiladu ar y gwaith partneriaeth cryf sydd ar waith ledled De Cymru mewn sawl sector ar hyn o bryd er mwyn sicrhau ein bod yn cyfrannu at ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder yn llwyddiannus ac, yn benodol, cydlynu cynllun cyflawni'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Mae hon yn swydd allweddol sy'n gofyn am unigolyn dynamig o safon uchel sy'n ymddwyn yn broffesiynol ac mewn ffordd ragweithiol a gwydn, sydd â dealltwriaeth o dirwedd partneriaethau ledled De Cymru. Bydd yr unigolyn hefyd yn awyddus i wneud gwahaniaeth ynghyd â meddu ar sgiliau cyfathrebu a threfnu er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno.
Bydd cyfrifoldebau yn cynnwys mynychu cyfarfodydd perthnasol ledled ardal yr heddlu, paratoi adroddiadau uchafbwyntiau a pherfformiad penodol a bydd yr unigolyn yn gyfrifol am gefnogi tîm y Comisiynydd a phartneriaid er mwyn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd arferion Cyfiawnder Troseddol drwy oruchwylio'r dasg o ddatblygu agweddau ar graffu a sicrhau ansawdd.

| | |
|---|---|
| **Prif**<br><br>**Gyfrifoldebau** | **Cyngor ac Arweiniad**<br><br>• Darparu cymorth ac arweiniad i dîm y Comisiynydd a meithrin cysylltiadau cryf a chynaliadwy ag asiantaethau partner er mwyn helpu i gyflawni Cynllun yr Heddlu a Throseddu<br>• Cyflwyno adroddiadau clir a chywir ar weithgarwch partneriaeth er mwyn sicrhau penderfyniadau effeithiol a chydymffurfiaeth â chanllawiau deddfwriaethol cyfredol<br>• Gweithio gyda phartneriaid i ddatrys problemau cymhleth, gan gyfeirio unrhyw broblemau difrifol at uwch-gydweithwyr<br>• Cynnig adborth a chyngor er mwyn annog arfer gorau ac adnabod unrhyw anghenion dysgu, datblygu polisi neu hyfforddiant posibl i'w hystyried gan yr heddlu ac asiantaethau eraill<br><br>**Gwella Busnes**<br><br>• Cefnogi yn y gwaith o ddatblygu dangosyddion perfformiad er mwyn mesur a monitro llwyddiant, gan gyfrannu at waith Cynllunio Busnes cyffredinol y swyddfa.<br>• Cyfrannu at raglenni craffu a Chyfiawnder Troseddol y Comisiynydd, gan weithio'n agos â Swyddogion Polisi o'r portffolios eraill<br>• Herio a chefnogi'r tîm arwain, gan weithredu fel sbardun ar gyfer newid a gwelliannau wrth gyflawni blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throseddu<br>• Cefnogi'r gwaith o fonitro cyfraniad y Comisiynydd i gyflawni Cyfiawnder Troseddol drwy gynrychioli'r tîm mewn fforymau partneriaeth, craffu ar berfformiad a sicrhau bod y gyllideb y mae'r Comisiynydd yn cyfrannu ati'n helaeth yn cael ei gwario'n effeithiol<br>• Helpu gyda phrosesau llywodraethu a chraffu o fewn y timau Cyfiawnder Troseddol a Sicrwydd Busnes<br>• Helpu gyda gwaith ymchwil a chynllunio o fewn rhaglen graffu'r Comisiynydd<br><br>**Datblygu Partneriaethau**<br><br>• Nodi cyfleoedd rhagweithiol i greu partneriaethau, gyda'r nod o gyflawni blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu De Cymru<br>• Cydlynu rhaglenni a pholisïau ar y cyd sy'n datblygu blaenoriaethau'r Cynllun ac yn sicrhau bod cyllid partneriaethau yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag anghenion a meysydd cyffredin sy'n peri pryder.<br>• Gweithio mewn cydweithrediad â phartneriaid er mwyn cyflawni gwelliannau mewn perfformiad ar draws y System Cyfiawnder Troseddol drwy ddatblygu prosesau craffu, sicrwydd ansawdd, a mesurau perfformiad<br>• Cydgysylltu'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ac is-grwpiau cysylltiedig |

| | |
|---|---|
| | **Trefnu/Cynllunio**<br><br>• Cynllunio a threfnu gwaith i'w gwblhau o fewn fframwaith, safonau ac amserlenni penodol<br>• Trefnu ac amserlennu digwyddiadau/cyfarfodydd yn ôl cyfarwyddyd<br>• Gweithredu a chyfrannu at strategaeth gwasanaeth yn ôl cyfarwyddyd<br>• Datblygu, cynnig a gweithredu cynllun busnes/prosiect cymeradwy ar gyfer yr uned, y pwnc neu'r swyddogaeth<br>• Trefnu a rheoli'r broses o gyflwyno'r maes pwnc neu brosiectau o ddydd i ddydd, gan gynnwys paratoi a chynllunio adnoddau<br>• Rheoli polisïau a datrysiadau partneriaethau integredig<br><br>**Rheoli Pobl**<br><br>• Nodi ac uwchgyfeirio'r angen i ddyrannu / tasgio / cydlynu'r gwaith i aelodau eraill o'r tîm yn eu maes pwnc / prosiect arbenigol<br>• Cynorthwyo'r tîm i baratoi a defnyddio cyfarpar a thechnegau a chynghori ar unrhyw agweddau penodol ar waith yn eich maes eich hun<br>• Monitro a dyrannu llwyth gwaith o fewn y tîm<br>• Hyfforddi a mentora aelodau eraill o'r tîm<br><br>**Polisïau a Strategaethau**<br><br>• Ymchwilio i bolisïau, eu hadolygu a'u llunio<br>• Monitro'r broses o roi polisïau ar waith ac adrodd arni er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a nodi materion/problemau.<br>• Chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu polisïau, strategaethau a chydberthnasau er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu De Cymru<br>• Rhannu perchnogaeth ar y cyd o'r holl flaenoriaethau, polisïau a chynlluniau yn swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru<br><br>**Prosesau**<br><br>• Dylunio, datblygu, creu, diwygio ac adolygu prosesau sy'n adlewyrchu polisïau i'w defnyddio ar draws yr heddlu<br>• Sicrhau ansawdd darpariaeth y gwasanaeth<br><br>**Rheoli Risg a Chydymffurfiaeth Gyfreithiol**<br><br>• Helpu i hwyluso unrhyw drefniadau rhannu gwybodaeth perthnasol |

| | |
|---|---|
| | • Nodi risgiau yn eich cylch gwaith eich hun a'u lliniaru a rhoi gwybod i eraill am risgiau<br>• Sicrhau bod yr uned yn cyflawni ei rhwymedigaeth o ran Iechyd a Diogelwch ac uwchgyfeirio problemau difrifol<br>• Monitro a sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reoliadau a chanllawiau polisi<br>• Nodi risgiau, mesur effaith a rhoi cyngor ar ganfyddiadau<br>• Bodloni rhwymedigaethau o ran deddfwriaeth gysylltiedig<br><br>**Gwasanaeth Cwsmeriaid a Chynrychioli**<br><br>• Cyflwyno delwedd a gwasanaeth cadarnhaol i gwsmeriaid mewnol ac allanol<br>• Mae'n ofynnol i unigolion ymgysylltu'n effeithiol â chwsmeriaid mewnol ac allanol ar bob lefel er mwyn darparu gwasanaeth o safon uchel<br>• Cynnal cyfrinachedd mewn perthynas â materion diogelu data a safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu (MOPI)<br>• Rhoi llais i'r Trydydd Sector yn swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru drwy wrando ar ei anghenion, nodi cyfleoedd i gydweithio, rhoi cymorth, cyfarwyddyd ac arweiniad o safon a hyrwyddo diwylliant cadarn o weithio mewn partneriaeth.<br>• Datblygu, creu a rheoli cydberthnasau effeithiol â phartneriaid cyfiawnder troseddol a phartneriaid perthnasol eraill ym mhob rhan o'r Heddlu<br><br>Yn ogystal, rhaid i ddeiliad y swydd fod yn barod i ymgymryd â'r cyfryw ddyletswyddau ychwanegol a all godi yn sgil amgylchiadau sy'n newid, ond nad ydynt, o reidrwydd, yn newid natur gyffredinol na lefel cyfrifoldeb y swydd. |
| **Cymwysterau a Phrofiad** | **Hanfodol**<br><br>• Yn gymwys i NVQ Lefel IV / lefel gradd, bod yn gweithio tuag at y lefel honno neu'n gallu dangos profiad cyflogaeth ar lefel gyfatebol |
| **Sgiliau** | **Hanfodol**<br><br>• Rhaid gallu datblygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau a dangos ymrwymiad i arferion gorau<br>• Rhaid meddu ar sgiliau cyfrifiadurol a'r gallu i ddefnyddio rhaglenni Microsoft<br>• Rhaid meddu ar sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol gan gynnwys sgiliau ysgrifennu adroddiadau.<br>• Sgiliau dadansoddi gwych gyda'r gallu i ddadansoddi a chyflwyno gwybodaeth mewn ffordd glir a dealladwy |

| | |
|---|---|
| | • Rhaid meddu ar sgiliau dylanwadu cryf a'r gallu i weithio'n dda gydag eraill er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol.<br>• Rhaid meddu ar brofiad o gynghori rheolwyr mewn perthynas â materion proffil uchel yn ymwneud â pholisi, perfformiad a sicrwydd ansawdd<br>• Rhaid dangos gallu i ddeall materion cymhleth, asesu ffeithiau a'u crynhoi a'u cwtogi i'w helfennau hanfodol<br>• Rhaid dangos creadigrwydd ac arloesedd wrth ymateb i broblemau a hyblygrwydd wrth ystyried y camau i'w cymryd<br><br>**Dymunol**<br><br>• Cymraeg Iaith Lefel 2 – Y gallu i ddeall hanfod sgwrs yn Gymraeg a'r gallu i gyfleu gwybodaeth sylfaenol ac ymateb i geisiadau syml yn Gymraeg. Yn gallu trosglwyddo galwadau ffôn yn Gymraeg. Yn gallu cyflwyno eich hun a phobl eraill yn ôl enw, rôl a lleoliad/sefydliad. Yn gallu cyfrannu at gyfarfod yn rhannol yn Gymraeg. |
| **Gwybodaeth** | **Hanfodol**<br><br>• Rhaid bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth, polisi a materion cymdeithasol cyfredol sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol a meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd hyn<br>• Rhaid dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amgylchedd plismona a chyfiawnder troseddol, gan gynnwys goruchwylio rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar wahân.<br>• Rhaid gallu dangos cymhwysedd / profiad yn y meysydd canlynol:<br>- Rheoli Prosiectau<br>- Y dirwedd partneriaethau ledled De Cymru<br>- Craffu a Sicrhau Ansawdd |
| **Rhinweddau Personol** | **Gwasanaethu'r Cyhoedd**<br><br>Dangos cred wirioneddol mewn gwasanaethu'r cyhoedd, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd ac a fydd o'r budd mwyaf iddynt.<br>Deall disgwyliadau, anghenion a phryderon cymunedau gwahanol a cheisio mynd i'r afael â nhw.<br>Meithrin hyder y cyhoedd drwy siarad â phobl mewn cymunedau lleol er mwyn ystyried eu safbwyntiau a chwalu'r rhwystrau rhyngddyn nhw a'r heddlu.<br>Deall effaith plismona ar gymunedau gwahanol a'r buddiannau iddynt a nodi'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau iddynt<br>Datblygu partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn darparu'r gwasanaeth cyffredinol gorau posibl i'r cyhoedd. |

| | |
|---|---|
| | |
| | **Proffesiynoldeb** |
| | Gweithredu ag uniondeb, yn unol â gwerthoedd Gwasanaeth yr Heddlu.<br>Cymryd perchnogaeth wrth ddatrys problemau, gan ddangos dewrder a gwydnwch wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd a allai fod yn ymfflamychol.<br>Gweithredu ar eich liwt eich hun i fynd i'r afael â materion, gan ddangos agwedd gref at waith a gwneud ymdrech ychwanegol pan fo angen.<br>Cynnal safonau proffesiynol, gan fod yn esiampl i eraill a herio ymddygiad amhroffesiynol neu wahaniaethol.<br>Parhau'n bwyllog ac yn broffesiynol dan bwysau, gan leddfu gwrthdaro, a bod yn barod i gamu ymlaen a chymryd rheolaeth pan fo angen. |
| | **Arwain Newid** |
| | Agwedd gadarnhaol tuag at newid, addasu ffyrdd gwahanol o weithio ac annog hyblygrwydd ymhlith eraill<br>Chwilio am ffyrdd o wella gwerth am arian a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu bob amser, gan awgrymu newidiadau ac annog eraill i gyfrannu syniadau<br>Datrys problemau mewn ffordd arloesol a chreadigol<br>Gofyn am adborth a gweithredu arno, gan ddysgu o brofiad a pharhau i ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol eich hun. |
| | **Arwain Pobl** |
| | Ysbrydoli aelodau o'r tîm i gyflawni nodau heriol, gan roi cyfarwyddiadau a datgan disgwyliadau'n glir<br>Cydnabod cyflawniadau unigolion a thimau drwy dynnu sylw at waith da a'i wobrwyo<br>Cydnabod pan fydd pobl yn colli'r awydd i weithio, a rhoi hwb a chefnogaeth pan fydd hynny'n digwydd<br>Rhoi adborth gonest ac adeiladol er mwyn helpu pobl i ddeall eu cryfderau a'u gwendidau |
| | **Rheoli Perfformiad** |
| | Deall amcanion a blaenoriaethau'r sefydliad a sut mae eich gwaith eich hun yn cyd-fynd â'r rhain<br>Cynllunio a threfnu tasgau yn effeithiol i gynnal a gwella perfformiad<br>Rheoli cyfres o flaenoriaethau, ystyried pethau'n ofalus ymlaen llaw, cydbwyso adnoddau a chydgysylltu gweithgareddau i gwblhau tasgau mewn pryd. |

| | |
|---|---|
| | Gwybod beth yw cryfderau aelodau o'r tîm, gan ddirprwyo'n briodol a chydbwyso llwythi gwaith y tîm cyfan<br>Monitro'r hyn a gaiff ei gyflawni er mwyn sicrhau bod tasgau wedi cael eu cwblhau i'r safon ofynnol, a mynd i'r afael â thanberfformiad yn effeithiol |
| | **Gwneud Penderfyniadau** |
| | Casglu, dilysu ac asesu'r holl wybodaeth briodol sydd ar gael i feithrin dealltwriaeth gywir o sefyllfaoedd.<br>Ystyried amrywiaeth o opsiynau posibl cyn gwneud penderfyniadau clir ac amserol y gellir eu cyfiawnhau.<br>Adolygu penderfyniadau, o ystyried gwybodaeth newydd ac amgylchiadau newidiol.<br>Cydbwyso risgiau, costau a buddiannau, gan ystyried effaith ehangach penderfyniadau.<br>Arfer disgresiwn a barn broffesiynol, gan sicrhau bod camau gweithredu a phenderfyniadau yn gymesur ac er budd y cyhoedd. |
| | **Cydweithio ag Eraill** |
| | Cydweithio ag eraill er mwyn cyflawni pethau, gan fod yn barod i roi help a chymorth i gydweithwyr. Yn hawdd mynd atoch, gan ddatblygu cydberthnasau gwaith cadarnhaol.<br>Gwrando'n ofalus a gofyn cwestiynau er mwyn sicrhau dealltwriaeth, gan leisio eich barn eich hun yn gadarnhaol ac yn adeiladol.<br>Darbwyllo pobl drwy bwysleisio manteision dull gweithredu penodol, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a rheoli eu disgwyliadau.<br>Bod yn foesgar, yn gwrtais ac yn ystyriol, gan ddangos empathi a thosturi Trin pobl fel unigolion a mynd i'r afael â'u hanghenion a'u pryderon penodol.<br>Trin pobl â pharch ac urddas, gan ymdrin â nhw'n deg a heb ragfarn drwy beidio â beirniadu, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau. |

| NODER: |
|---|
| Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr ac efallai, o bryd i'w gilydd, y bydd angen cyflawni dyletswyddau eraill sy'n gymesur â gradd a natur cyffredinol y swydd. At hynny, gall y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau uchod amrywio a/neu gael eu datblygu rhywfaint heb newid natur gyffredinol y swydd.<br>Ac eithrio unrhyw Ddirprwy a benodir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ni ddylai staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ymgymryd â gwaith gwleidyddol ond mae'n ofynnol iddynt weithredu mewn ffordd sy'n sensitif ac sydd wedi'i llywio'n llwyr gan gyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cyfrifoldebau plismona, diogelwch cymunedol, diogelu'r cyhoedd a chyfiawnder troseddol y CHTh. Bydd deiliad y swydd mewn swydd sy'n wleidyddol gyfyngedig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae'n ofynnol i SCHTh ymgymryd â'i rôl mewn ffordd sy'n ystwyth ac yn ymateb i fudd y cyhoedd, gan ddangos atebolrwydd uniongyrchol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r cyhoedd ac ystyried prosesau goruchwylio a chraffu cefnogol ar gyfer trefniadau Panel yr Heddlu a Throseddu a threfniadau'r pwyllgor archwilio annibynnol. Ochr yn ochr â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mae SCHTh yn ymgymryd â'i rolau drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â'r heddlu a'r cyhoedd, asiantaethau partner yn y sector preifat a'r trydydd sector ar bob lefel, â llywodraeth leol a chenedlaethol ac â'r cyhoedd.<br>Oherwydd natur y rôl, efallai y bydd cynnwys y portffolio yn newid yn unol â deddfwriaeth, polisi'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a blaenoriaethau SCHTh. Caiff y meysydd gwaith eu pennu gan y blaenoriaethau a bennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu felly mae'n bosibl y caiff y meysydd portffolio eu diwygio neu eu hailbennu i fod yn gyson â'r blaenoriaethau hyn. Rhaid i bob cyflogai gydymffurfio â'r nodweddion cyfrinachedd a nodir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), y Canllawiau ar Reoli Gwybodaeth yr Heddlu (MOPI) a'r Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol (y byddwch yn rhwym wrthi am oes). |

Rhaid i bob unigolyn o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru ddangos y rhinweddau i allu gweithio mewn sefydliad â grwpiau lleiafrifol a darparu gwasanaeth i grwpiau lleiafrifol mewn cymunedau. Rhaid iddo ddangos y gallu i gyfrannu at amgylchedd gwaith agored a theg lle ni chaniateir ymddygiad amhriodol. Ni ddylent ddangos unrhyw dystiolaeth y byddant yn debygol o gyfrannu at unrhyw achos o fwlio yn y gweithle nac unrhyw fath arall o ymddygiad gwahaniaethol.

## Dull Asesu

Wrth gwblhau eich cais, sicrhewch eich bod yn cwblhau'r adrannau wedi'u marcio isod yn unig am mai'r rhain yw'r adrannau a fydd yn cael eu hystyried ar gam llunio rhestr fer eich cais.

| | Llunio rhestr fer |
|---|---|
| Cymwysterau | ✓ |
| Sgiliau | ✓ |
| Gwybodaeth | ✓ |
| Rhinwedd Bersonol – Gwasanaethu'r Cyhoedd | |
| Rhinwedd Bersonol – Proffesiynoldeb | |
| Rhinwedd Bersonol – Arwain Newid | ✓ |
| Rhinwedd Bersonol – Arwain Pobl | |

| | |
|---|---|
| Rhinwedd Bersonol – Rheoli Perfformiad | |
| Rhinwedd Bersonol – Gwneud Penderfyniadau | ✓ |
| Rhinwedd Bersonol – Cydweithio ag Eraill | ✓ |